# DAVIES (DAVYS), MATTHEW (fl. 1620), gwleidyddwr

**Enw:** Matthew Davies
**Rhiant:** Edward Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwleidyddwr
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

mab hynaf Edward Davies, Chisgrove, swydd Wilts (o deulu Syr John Davies, 1569 - 1626, bardd a chyfreithiwr y mae ysgrif arno yn y *D.N.B.*). Dewiswyd ef yn aelod dros Gaerdydd yn Senedd gyntaf Iago I, o dan nawdd y 3ydd iarll Penfro, a bu'n ymladd yn gryf dros iawnderau'r fwrdeisdref honno yn erbyn y cynnig i newid cwrs trafnidiaeth drwy bontio afon Gwy yng Nghasgwent. Ac yntau eto'n fyfyriwr yn y Middle Temple (fe'i derbyniwyd 4 Ebrill 1614), bu'n siarad yn aml yn yr ' Addled Parliament ' (1614), gan arwain, gyda'i fynych areithiau gwladgarol, y gwrthwynebiad i gymal 119 yn Neddf yr Uno a gweithredu fel cadeirydd y pwyllgor a fu'n ystyried y mesur a gyflwynwyd (cyn ei amser, fel petai) i'w ddiddymu; bu hefyd yn pleidio mesurau'n ymwneud â chadwraeth y Saboth a'r ymosod ar ddrwg-weithredoedd etholiadol Syr Thomas Parry pan oedd hwnnw'n siansler y Duchy of Lancaster. Mewn Seneddau diweddarach bu'n eistedd dros etholaethau yn Lloegr - ar y cyntaf yn y mannau hynny yn Wiltshire lle yr oedd teulu Pembroke yn ddylanwadol, eithr peidiodd â chymryd rhan o unrhyw bwys yn y dadleuon. Gan iddo esgeuluso cymryd ei le yn y Senedd Faith fe'i lluddiwyd ('disabled') oherwydd iddo wrthod mynd i'r Senedd pan wysiwyd ef yno (15 Mawrth 1643). Yn Shaftesbury, un o etholaethau 'poced' teulu Pembroke, yr oedd yn byw ar y pryd.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau


*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1942, 31, 35-6, 70-1

*The Journals of the House of Commons*, iii,4

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 106

H. A. C. Sturgess, *Register of Admissions to the Honourable Society of the Middle Temple* (1949), i, 102


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6790387


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu